



Prosiect Ardal Ieuenctid Drefol | *Urban Youth Area Project*

Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council

Swyddfa Benllech Library | Min yr Afon, Benllech | 07549 241238 | cllanfairme@outlook.com

CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGU PROSIECTAU | PROJECT DEVELOPMENT COMMITTEE MEETING

11 / 6 / 2026 | 14:00 | Llyfrgell Benllech Library

COFNODION | MINUTES

Present | *Yn bresennol*

Ieuan Williams
John Humphreys
Sioned Wyn
Clerk – Laura Sutton

1. Ymddiheuriadau | *Apologies*

Rhian-Mair Jones
Iwan Kellett

2. Datganiadau o Ddiddordeb | *Declarations of Interest*

None | *Dim*

3. Trafod cynlluniau ar gyfer yr ardal ieuenctid | *Discuss plans for the youth area*

Rhannodd y Clerk ddarluniau cysyniadol o'r ardal ieuenctid gyda'r aelodau. Trafodwyd y dyluniad a'r nodweddion posibl, ynghyd â lluniau a syniadau'r plant a oedd wedi helpu i lywio'r cynllun. Trafodwyd hefyd yr amserlen bosibl ar gyfer y prosiect ac unrhyw rwystrau a allai effeithio ar ei ddatblygiad | *The Clerk shared concept illustrations of the youth area with members. The proposed design and features were discussed, together with the children's drawings and ideas which had helped to inform the plans. Members also discussed the potential timescale for the project and any obstacles which may affect its development.*

4. Adolygu a chynllunio'r cynllun gosodiad | *Review and plan the layout*

Nodwyd ei bod yn anodd cytuno ar gynllun gosodiad manwl nes bod maint y safle wedi'i gadarnhau. Fodd bynnag, cytunwyd ar y prif nodweddion y dylid eu cynnwys yn yr ardal. Cytunodd yr aelodau nad oedd angen cynnwys siglenni na llithrennau gan fod parc plant Cae'r Berllan eisoes yn darparu'r cyfleusterau hyn yn y pentref | *It was noted that it was difficult to agree a detailed layout until the size of the site can be confirmed. However, members agreed the key features that should be included within the area. Members agreed that swings and slides were not required as these facilities are already available at Cae'r Berllan children's park within the village.*

5. Trafod y cais grant a'r cynllun ariannu | *Discuss the grant application and funding plan*

Trafododd yr aelodau'r dyddiad cau ar gyfer y cais grant a chytunwyd y gall y Clerc gyflwyno'r cais er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei dderbyn mewn pryd. Trafodwyd hefyd fod y Cyngor wedi bod yn neilltuo arian wrth gefn ar gyfer y prosiect hwn dros gyfnod o amser, ac felly byddai'r Cyngor yn fodlon ystyried cyfrannu tuag at unrhyw gostau sy'n uwch na gwerth y grant os bydd angen. Cytunwyd y dylid adrodd hyn i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod nesaf | *Members discussed the deadline for the grant application and agreed that the Clerk may submit the application to ensure it is received before the closing date. Members also discussed that the Council has been setting aside reserve funds for this project over a period of time and would therefore be willing to consider contributing towards any costs exceeding the value of the grant if necessary. It was agreed that this should be reported to Full Council at its next meeting.*

6. Trafod prosiectau amgen | *Discuss alternative projects*

Trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o osod offer ffitrwydd awyr agored ger yr ardal bicnic wrth y traeth fel prosiect amgen pe bai caniatâd ar gyfer y prosiect arfaethedig yn cael ei wrthod ar unrhyw adeg. Nodwyd y gallai hyn ddarparu defnydd cymunedol gwerthfawr pe na fyddai'r cynllun presennol yn gallu symud ymlaen | *Members discussed the possibility of installing outdoor fitness equipment near the picnic area at the beach as an alternative project should permission for the proposed project be refused at any stage. It was noted that this could provide a valuable community facility should the current plan be unable to proceed.*

7. Trafod camau gweithredu ac ymholiadau | *Discuss actions and queries*

Trafodwyd y camau nesaf ar gyfer y prosiect. Cytunwyd y byddai IW yn cysylltu â'r Cyngor Sir i geisio cael cadarnhad ysgrifenedig mewn egwyddor fel y gallai'r Clerc ddechrau trefnu ymweliadau safle a gwaith cynllunio pellach. Cynigiodd JH ymweld â'r safle a thynnu ffotograffau i gynorthwyo gyda'r broses gynllunio. Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc yn trefnu cyfarfod gyda'r Pennaeth er mwyn ei gadw'n gyfredol ynghylch datblygiad y prosiect. Cytunwyd ymhellach y byddai'r Clerc yn cynnwys eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor llawn i roi diweddariad ar gyfarfod heddiw ac unrhyw ddatblygiadau pellach | *The next steps for the project were discussed. It was agreed that IW would liaise with the County Council to seek written confirmation in principle, enabling the Clerk to begin arranging site visits and further planning work. JH offered to visit the site and take photographs to assist with the planning process. It was also agreed that the Clerk would arrange a meeting with the Headteacher to keep him informed of the project's development. It was further agreed that the Clerk would include an item on the agenda of the next Full Council meeting to provide an update on today's meeting and any subsequent developments.*

8. Unrhyw faterion nad ydynt ar yr agenda | *Any Additional Matters Discussed, not on the agenda*

Trafodwyd trefnu cyfarfod anffurfiol ar gyfer dydd Mercher nesaf er mwyn trafod y camau gweithredu a gytunwyd, rhoi diweddariadau ar gynnydd, ac i aelodau gynnig unrhyw gymorth neu gefnogaeth y gallent ei darparu i gynorthwyo gyda'r prosiect a'r broses ymgeisio am grant | *Members discussed arranging an informal meeting for the following Wednesday to discuss agreed actions, provide progress updates, and offer any assistance or support that may help with the project and the grant application process.*

Daeth y cyfarfod i ben am 15:00 | *Meeting closed at: 15:00*
